

pN(5)30 – Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ('Deddf 1972') i roi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith. Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017 ('y Rheoliadau Marchnata') i alluogi Gweinidogion Cymru i barhau i awdurdodi marchnata planhigion ffrwythau a deunyddiau lluosogi sy'n dod o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd o dan amgylchiadau penodol. Ymestynnodd Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/120 yr awdurdod blaenorol i 31 Rhagfyr 2022.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a daw i rym yn union cyn y diwrnod ymadael. Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 i sicrhau bod y diwygiad a wnaed gan reoliad 2 yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Argymhelliad y Pwyllgor o ran Gweithdrefn Briodol

Rydym wedi ystyried y meini prawf a bennir yn Rheol Sefydlog 21.3C. Argymhellwn mai'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn yw'r weithdrefn penderfyniad gadarnhaol.

Fel a nodir uchod, ymestynnodd Penderfyniad y Comisiwn yr awdurdod ar gyfer yr awdurdodi i 31 Rhagfyr 2022. Mae'r Rheoliadau presennol yn dileu y terfyn amser (31 Rhagfyr 2018) yn rheoliad 5(4) o'r Rheoliadau Marchnata yn hytrach na'i ddisodli gyda'r dyddiad newydd. Nid yw felly'n gweithredu deddfwriaeth yr UE yn briodol.

Efallai na fydd y dyddiad hwnnw'n berthnasol os na fydd Cymru'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd erbyn hynny. Os felly, gallai rheoliad 3 (a ddaw i rym yn union cyn ymadael) fod wedi gwneud newid priodol. Gan mai diben adran 2(2) of Ddeddf 1972, y dibynnir arno ar gyfer rheoliad 2, yw rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith, dylid gwneud hynny mewn ffordd sy'n gywir ar y dyddiad y gwneir y deddfwriaeth gweithredu.

Ymateb y Llywodraeth

Os nad yw Llywodraeth Cymru'n cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor o ran y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio pam y mae hi'n anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 27.9B.

